




Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Teitl / Darn o waith:	Darparu cynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd seiliedig ar alw Cymru gyfan i olynu <i>Nyth Cartrefi Clyd</i> .
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yn berthnasol)	
Enw'r Swyddog:	Paul Moyle
Adran:	Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Dyddiad:	Gorffennaf 2017
Llofnod:	<i>P Moyle</i>

Chwe Cham tuag at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddileu tlodi tanwydd, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, ar bob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018. Mae gennym bwerau cyfyngedig i fynd i'r afael ag incwm isel a phrisiau ynni, sy'n golygu bod dileu tlodi tanwydd yn her wirioneddol, ond gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru.

Mae gan Gymru rai o'r stoc adeiladu hynaf a lleiaf effeithlon o ran ynni yn Ewrop. Mae'r ffaith fod cynifer o adeiladau hŷn yng Nghymru wedi gadael gwaddol sylweddol o nodweddion aneffeithlon o ran ynni. Felly, mae angen mwy o ynni i gadw ein cartrefi yn gynnes o'i gymharu ag ardaloedd eraill o Ewrop, sy'n arwain at filiau ynni uwch. Gwellu effeithlonrwydd ynni cartrefi yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o leihau biliau ynni yn yr hirdymor, gan sicrhau bod aelwydydd yn gallu cadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.

Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn nodi ein camau gweithredu arfaethedig i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r camau allweddol yn cynnwys:

- Darparu cynllun tlodi tanwydd Cymru gyfan sy'n seiliedig ar alw ar gyfer aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw mewn cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, wedi'i ategu gan fuddsoddiad mewn ardaloedd penodol.
- Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth wedi'u cydgysylltu'n dda i sicrhau bod pob deiliad tŷ yng Nghymru yn gallu cael gfael ar gymorth i leihau ei filiau tanwydd, manteisio'n llawn ar ei incwm, gwella perfformiad ynni ei gartref a lleihau'r risg o wynebu tlodi tanwydd.

Rydym wrthi'n gwneud hyn yn effeithiol ar hyn o bryd trwy ein rhaglen effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru*, sy'n cynnwys cynllun *Nyth* sy'n seiliedig ar alw, a chynllun *Arbed* sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol.

Gan fod contract y cynllun *Nyth* presennol yn dod i ben ym mis Mawrth 2018, rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ymwneud â chynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd seiliedig ar alw i olyn *Nyth* ym mis Ebrill 2018. Nod y cynllun yw sicrhau bod aelwydydd yng Nghymru yn gallu cyrchu ystod o gyngor a chymorth diduedd a di-dâl i'w helpu i leihau eu biliau ynni a chadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys atgyfeiriad ar gyfer pecyn o welliannau ynni cartref ar gyfer rhai aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac aneffeithlon o ran ynni, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys sefyllfa lle mae'r deiliad tŷ, neu rywun arall sy'n byw yn y tŷ, yn derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd, eiddo sydd â sgôr effeithlonrwydd ynni o E.F neu G ac eiddo domestig sy'n eiddo preifat neu'n eiddo wedi'i rentu'n breifat.

Defnyddir sawl dull gwahanol i farchnata cynllun *Nyth*: trwy wefan *Nyth*, hysbysebion ar y radio, digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, marchnata uniongyrchol, a phartneriaethau cydweithredol â sefydliadau amrywiol er mwyn helpu i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Defnyddiwyd tystiolaeth o nifer o adroddiadau ymchwil gymdeithasol¹, ynghyd â gwersi a ddysgwyd o'r cynllun presennol, i ddatblygu cynigion ar gyfer y cynllun newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd diwygiedig i wella'r broses dargedu, a darparu cyngor i aelwydydd cymwys yn eu cartrefi eu hunain. Rhoddir blaenoriaeth i gefnogi aelwydydd sydd â'r angen mwyaf (h.y. aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac aneffeithlon o ran ynni).

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion drafft rhwng 27 Gorffennaf 2016 a 19 Hydref 2016. Cyhoeddwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar 23 Rhagfyr 2016.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys sefydliadau fel Plant yng Nghymru, ac roedd manylion yr ymgynghoriad wedi'u cynnwys mewn briffiau electronig 'Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru' a 'Plant yng Nghymru'.

Nodau ac amcanion allweddol y cynllun newydd

Amcan y cynllun yw olynu a datblygu cynllun presennol *Nyth Cartrefi Clyd*, a'r amcanion allweddol yw:

- lleihau effaith tlodi tanwydd ar aelwydydd yng Nghymru ac, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, dileu tlodi tanwydd;
- creu swyddi a chyfleoedd busnes gwyrdd ar gyfer pobl Cymru;
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector domestig.

Yn unol â Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, targedir cymorth ar gyfer aelwydydd sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni.

Yn ôl rhanddeiliaid plant, bydd y meini prawf diwygiedig yn eithrio nifer sylweddol o aelwydydd sydd â phlant sy'n cael eu heffeithio'n negyddol ar hyn o bryd gan dlodi tanwydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod byw mewn cartref sy'n aneffeithlon o ran ynni yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau iechyd plant o bob oed. Mae'n gallu gwaethygu

¹ <https://gov.wales/statistics-and-research/understanding-characteristics-low-income-households-risk-living-cold-homes/?skip=1&lang=cy>

problemau iechyd, gan olygu bod y plentyn yn dioddef a bod angen ymyrraeth iechyd fwy costus. Hefyd, mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod aelwydydd incwm isel sydd ag oedolyn a/neu blentyn anabl mewn mwy o berygl o wynebu tlodi tanwydd na'r rhan fwyaf o aelwydydd eraill.

Mae'r ymatebion llawn i'r ymgynghoriad ar gael yn:

<https://gov.wales/about/cabinet/decisions/2017/jan-mar/environment/lg7958/?lang=cy>

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant diwygiedig i Gymru². Mae'n cynnwys amcan newydd, sef cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm aelwydydd trwy gynnig cyngor ar ddyled a chyllid, camau i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau i liniau effeithiau diwygiadau lles.

Bydd y broses o ddarparu cyngor a chymorth ar gyfer aelwydydd incwm isel sy'n byw mewn eiddo aneffeithlon o ran ynni yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r amcan allweddol hwn.

Hefyd, bydd y cynllun newydd yn rhoi nifer o gamau gweithredu ar waith a nodwyd yn Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 a Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni 2016. Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd yn benodol yn cynnwys camau gweithredu i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel sy'n agored i niwed er mwyn eu helpu i wresogi eu cartrefi am gost fwy fforddiadwy a lleihau lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys aelwydydd â phlant.

² <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?skip=1&lang=cy>

Amcangyfrifir bod 1.6 miliwn o blant yn y DU yn byw mewn tlodi tanwydd (ACE, 2013). Mae plant sy'n byw ar rai aelwydydd penodol mewn perygl penodol o fyw mewn cartrefi oer, sef teuluoedd un rhiant, cartrefi incwm isel, cartrefi mewn ardaloedd gwledig, cartrefi dan arweiniad rhiant sy'n dod o gefndir du neu leiafrif ethnig, a chartrefi o dan arweiniad rhiant sydd â chyflwr iechyd hirdymor (National Children's Bureau, 2012). Mae cynllun *Nyth* yn ymgysylltu â sefydliadau plant ifanc penodol fel Canolfannau Dechrau'n Deg a Chanolfannau i Deuluoedd Barnardo's.

Mae aelodau aelwydydd sydd â phlant, yn enwedig plant o dan bump oed, yn treulio mwy o amser na'r cyfartaledd yn y cartref, gan gynyddu eu cysylltiad ag effeithiau iechyd niweidiol byw mewn cartrefi oer. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod tymheredd oer dan do yn gallu cael effaith negyddol ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol plant. I blant oed ysgol, gall methu mynd i'r ysgol oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â chartrefi oer gael effaith niweidiol ar eu cyrhaeddiad addysgol (Liddell, 2008). Hefyd, gall diffyg lle cynnes i wneud eu gwaith cartref olygu bod plant yn colli tir wrth astudio (Tîm Adolygu Marmot, 2011).

Gall tlodi tanwydd gynyddu ynysu cymdeithasol gan fod pobl yn llai parod i wahodd ffrindiau i gartref oer a thamp. Hefyd, mae biliau tanwydd uchel yn golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer bwyd, treuliau bob dydd eraill, a gweithgarwch cymdeithasol.

Yn ôl adroddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru,³ mae babanod sy'n byw mewn cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd (oer a thamp) 30% yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty neu fynychu gofal sylfaenol. Hefyd, nododd yr adroddiad fod cysylltiad rhwng cartrefi o ansawdd gwael sy'n wynebu problemau llwydni, cynhesrwydd gwael ac effeithlonrwydd ynni gwael, ag afiechyd corfforol a meddyliol. Mae'n cael effaith ar yr unigolyn, gan arwain at gostau i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r GIG o safbwynt cynnydd cysylltiedig mewn troseddu, diweithdra a chostau triniaeth.

Ymysg y 240,000 o aelwydydd yng Nghymru yr amcangyfrifwyd bod eu hincwm yn is na'r trothwy incwm isel, roedd 14 y cant yn cynnwys plant (o dan 18 oed). Yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf o lefelau tlodi tanwydd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE),⁴ roedd 261,000 (24%) o aelwydydd agored i niwed yn wynebu tlodi tanwydd yn 2016. Mae hyn yn seiliedig ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru o aelwyd agored i niwed, sef aelwyd sydd â rhywun 60 oed neu drosodd, aelwyd â phlentyn/person ifanc o dan 25 oed, neu aelwyd sy'n cynnwys unigolyn ag unrhyw gyflwr sy'n cyfyngu ar ei fywyd, neu unigolyn anabl. Er bod gwaith ymchwil yn dangos bod yr amcangyfrif o nifer yr aelwydydd agored i niwed sydd mewn tlodi tanwydd wedi lleihau ers lefelau 2012, sef 328,000 (31%), amcangyfrifir bod tua 24 y cant o aelwydydd agored i niwed yng Nghymru yn wynebu tlodi tanwydd yn 2016. Mae hyn yn cefnogi'r achos dros barhau i weithredu ym maes tlodi tanwydd, gan roi blaenoriaeth i gefnogi aelwydydd incwm isel sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn cartrefi oer.

³ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/42095>

⁴ <http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160711-production-estimated-levels-fuel-poverty-wales-2012-2016-en.pdf>

Mae gwaith ymchwil BRE yn amlygu effaith gadarnhaol gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref ar lefelau tlodi tanwydd. Mae hyn yn dangos bod cynllun Cymru gyfan sy'n cefnogi cartrefi incwm isel trwy ddarpariaeth o'r fath, ochr yn ochr â phecyn cynhwysfawr o gyngor a chymorth arall, yn parhau i fod yn ffordd hynod effeithiol o leihau lefelau tlodi tanwydd.

Mae buddsoddi mewn gwelliannau tai trwy gynllun seiliedig ar alw yn ffordd gost-effeithiol o atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd corfforol a meddyliol. Gallai arwain at unigolion yn mynychu'r ysgol neu'r gwaith yn fwy rheolaidd, defnydd cynyddol o'r cartref at ddibenion astudio a hamdden, a chysylltiadau gwell rhwng aelodau aelwydydd.

Hefyd, lleihau amser i ffwrdd o'r ysgol; lleihau'r bwch mewn cyrhaeddiad addysgol; cynyddu incwm cartrefi; lleihau troseddu o bosibl.

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddwyd canfyddiadau gwaith ymchwil yn ymwneud ag effeithiau iechyd y cynllun presennol, *Nyth Cartrefi Clyd*. Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod cynllun Nyth yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar iechyd y rhai sy'n cymryd rhan, a bod pobl sy'n manteisio ar fesurau effeithlonrwydd ynni'r cynllun yn defnyddio gwasanaethau'r GIG i raddau llai.

Gan adeiladu ar y canfyddiadau hyn, roedd disgwyl y byddai'r cynllun Nyth newydd yn ymestyn cymhwysedd ar gyfer mesurau gwella ynni cartref di-dâl i gartrefi incwm isel lle mae gan breswlydd gyflwr iechyd yn ymwneud ag anadlu neu gylchrediad y gwaed. Fodd bynnag, fe gafodd cyfnod y cynllun peilot yn ymwneud â chyflyrau iechyd ei ymestyn i 31/3/19 fel bod modd casglu mwy o dystiolaeth gadarn ynglŷn â'r llwybr atgyfeirio gweithiwr iechyd proffesiynol mwyaf effeithiol a phrofi'r broses yn ystod cyfnodau prysur y gwasanaeth iechyd.

Mae budd-daliadau perthnasol sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer aelwydydd â phlant yn cynnwys Credyd Treth Plant, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Plant a Chymhorthdal Incwm.

Bydd aelwydydd cymwys sy'n eu hatgyfeirio eu hunain i'r cynllun Nyth neu sy'n cael eu cyfeirio i'r cynllun gan sefydliadau atgyfeirio partner eraill yn derbyn asesiad tŷ cyfan gan asesydd ynni Nyth cymwys er mwyn penderfynu ar becyn addas o fesurau gwella ynni yn y cartref.

Mae yna argymhelliad penodol mewn perthynas ag adolygiad penodol 2016 Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, sy'n datgan:

71. *The Committee draws the attention of the State party to target 1.2 of the Sustainable Development Goals, on poverty reduction, and urges the State party to:*
 - (a) *Set up clear accountability mechanisms for the eradication of child poverty, including by re-establishing concrete targets with a set time frame and measurable indicators, and continue regular monitoring and reporting on child poverty reduction in all parts of the State party;*
 - (b) *Ensure clear focus on the child in the State party's poverty reduction strategies and action plans, including in the new "Life Chances Strategy", and*

support the production and implementation of child poverty reduction strategies in the devolved administrations;

(c) Conduct a comprehensive assessment of the cumulative impact of the full range of social security and tax credit reforms introduced between 2010 and 2016 on children, including children with disabilities and children belonging to ethnic minority groups;

(d) Where necessary, revise the mentioned reforms in order to fully respect the right of the child to have his or her best interests taken as a primary consideration, taking into account the different impacts of the reform on different groups of children, particularly those in vulnerable situations;

(e) Strictly implement the legal prohibition of prolonged placement of children in temporary accommodation by public authorities in England, Wales and Scotland, and enact similar legislation in Northern Ireland;

(f) Take necessary measures to reduce homelessness and to progressively guarantee all children stable access to adequate housing that provides physical safety, adequate space, protection against the threats to health and structural hazards, including cold, damp, heat and pollution, and accessibility for children with disabilities;

Cam 3. Sut mae eich ch darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Nod y cynllun Nyth newydd yw gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi sy'n eiddo preifat neu gartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat yng Nghymru sy'n wynebu tlodi tanwydd, fel bod aelwydydd yn gallu cadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy.

Fel y trafodwyd yng ngham 2, mae'r cynllun yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant trwy ddarparu cyngor i aelwydydd a thrwy ddarparu pecyn o fesurau gwella ynni di-dâl, gan leihau costau ynni a manteisio ar incwm. Yn ogystal â sicrhau bod pobl yn byw mewn lle cynnes a diogel, gallant wario arian ar bethau eraill wedyn, fel bwyd, treuliau bob dydd a gweithgareddau cymdeithasol. Hefyd, mae gwella effeithlonrwydd ynni aelwydydd yn cefnogi hawliau plant trwy atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Gall olygu bod plant yn colli llai o amser yn yr ysgol, bod modd defnyddio'r cartref yn amlach at ddibenion astudio a hamdden, a bod cysylltiadau rhwng aelodau aelwydydd yn gwella.

Mae'r cynllun yn cefnogi hawliau plant trwy'r erthyglau canlynol:

Erthygl 6: Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod tymheredd oerach yn y cartref yn gallu effeithio ar iechyd ac addysg plant a phobl ifanc. Mae'r cynllun hwn yn ceisio sicrhau bod plant yn byw mewn cartrefi cynnes, gan wella eu hiechyd a darparu lle tawel a chynnes lle gallant astudio a mwynhau eu hamser hamdden.

Erthyglau 12 a 13 – mynegi barn / darparu gwybodaeth??

Erthygl 24: Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys rhoi cyngor ar arbed ynni a dŵr a darparu gwelliannau ynni cartref di-dâl. Mae hyn yn lleihau costau ynni a dŵr fel bod cartrefi yn gallu cadw'n gynnes am gost fwy fforddiadwy. Dylai hyn wneud y mwyaf o incwm cartrefi, fel bod modd iddynt wario arian ar bethau eraill, fel bwyd maethlon.

Ymysg y ffactorau ffisiolegol sy'n gwneud plant yn fwy agored i effeithiau niweidiol cartrefi oer y mae diffyg gallu i ymdopi â straen thermol o'i gymharu ag oedolion. O ganlyniad, mae plant sy'n byw mewn cartrefi oer yn fwy tebygol o wynebu problemau iechyd anadlol, fel asthma a bronchitis (Tîm Adolygiad Marmot, 2011) (Climate Just, 2014).

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae babanod sy'n byw mewn cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd (oer a thamp) 30% yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty neu fynychu gofal sylfaenol. Dylai gwella effeithlonrwydd ynni aelwydydd wella iechyd plant a lleihau nifer y derbyniadau i ysbytai a gwasanaethau gofal sylfaenol. Bydd cartrefi sy'n fwy cynnes ac sy'n defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon yn cael effaith gadarnhaol ar gyflyrau iechyd o'r fath.

Mae'r galw llai am ynni yn lleihau allyriadau carbon hefyd, gan arwain at amgylchedd glanach yn yr hirdymor.

Erthygl 26 (Nawdd Cymdeithasol): Mae gan blant – naill ai trwy eu gwarcheidwaid neu'n uniongyrchol – yr hawl i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os ydynt yn dlawd neu mewn angen.

Erthygl 27: Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn. Mae tystiolaeth wedi dangos bod byw am amser estynedig mewn cartref oer yn gallu dylanwadu ar iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol (National Energy Action, 2013b). Mae cynfodolaeth problemau iechyd meddwl yn ffactor risg sy'n golygu bod grŵp penodol o bobl yn fwy agored i niwed oherwydd straen cartrefi oer.

Nod y cynllun newydd yw darparu cymorth ar gyfer aelwydydd sydd â'r angen mwyaf h.y. cartrefi incwm isel sy'n agored i niwed. Mae'r mesurau a gyflwynwyd yn gwella'r safon byw, ac mae tystiolaeth yn dangos bod hynny wedi cael effaith uniongyrchol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl. Mae'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gael am ddim i ddefnyddwyr ac fe'u hariennir trwy raglen Llywodraeth Cymru.

Erthygl 29: Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

Mae tystiolaeth yn dangos bod tymheredd oer dan do yn gallu cael effaith negyddol ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol plant. Hefyd, mae gan gartrefi oer oblygiadau cymdeithasol sylweddol ar gyfer plant hŷn. O safbwynt addysg, bydd achosion cynyddol o asthma a chlefydau eraill yn golygu bod plant yn colli mwy o ddiwrnodau ysgol, a gall hynny gael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad dros gyfnod hir. Yn Seland Newydd, nodwyd bod 15 y cant yn llai o ddiwrnodau ysgol wedi'u colli ar ôl cwblhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni mewn tai (Liddell, 2008). Strategaeth gyffredin i fynd i'r afael â thai oer yw gwresogi un ystafell neu ddwy yn unig yn y cartref; fodd bynnag, mae pawb yn tueddu i aros yn yr ystafelloedd sydd wedi'u gwresogi wedyn. Felly, mae diffyg llefydd tawel a chynnes ar gyfer plant i astudio a gwneud gwaith cartref mewn cartrefi oer yn faterion perthnasol hefyd (Tîm Adolygiad Marmot, 2011).

Trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a'u galluogi i gadw'n gynnes am gost fforddiadwy, gellid lleihau nifer y diwrnodau ysgol neu waith sy'n cael eu colli, cynyddu defnydd y cartref at ddibenion astudio a hamdden, a gwella cysylltiadau rhwng aelodau cartrefi.

Erthygl 31: Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, bydd aelwydydd yn gallu cadw eu heiddo yn gynnes, gan ddarparu lle cynnes a diogel i ymlacio a chwarae fel bod plant yn gallu gwahodd ffrindiau i'r tŷ ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol. Mae hyn yn fanteisiol i lesiant ac i iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.

Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Mae swyddogion wedi ystyried CCUHP ac wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r CRIA wedi dod i'r casgliad y bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar hawliau plant, gan gyfrannu at nifer o erthyglau o dan y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Felly, mae swyddogion yn argymhell y dylai'r Gweinidog barhau i fuddsoddi mewn cynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd seiliedig ar alw yn unol â'r cynnig.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Mae'r holl waith papur yn ymwneud â datblygu'r cynllun tlodi tanwydd seiliedig ar alw, gan gynnwys gwaith ymchwil perthnasol a ddefnyddiwyd i ddatblygu cynigion, wedi'i storio yn y ffeil ishare berthnasol.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cynllun seiliedig ar alw newydd ar 27 Gorffennaf 2016, a chyhoeddwyd crynodeb o ymatebion ac ymateb i'r ymgynghoriad ar 23 Rhagfyr 2016. Hefyd, cynhaliwyd gweithdy penodol ar gyfer rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ar 5 Hydref 2016. Nodwyd pwyntiau trafod allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y crynodeb o ymatebion a chyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Adolygir y cynllun newydd yn rheolaidd gyda Rheolwr y Cynllun llwyddiannus yn erbyn y targedau a nodwyd yn y contract. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad blynyddol ar llwyddiannau a pherfformiad y cynllun yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Byddwn yn ailystyried y CRIA yr un amser bob blwyddyn er mwyn monitro llwyddiant.

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r CRIA, a oes unrhyw effaith wedi bod ar gyllidebau? Os oes unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i gynlluniau gwario, gan gynnwys os oes dyraniadau ychwanegol wedi'u gwneud, mae'n bwysig asesu a dangos tystiolaeth o hyn fel rhan o'r broses CRIA.	Nac oes
Rhowch unrhyw fanylion:	

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?	Blwyddyn ar ôl ei gyhoeddi
Os yn berthnasol: nodwch ddyddiad yr adolygiad	Ddim yn berthnasol



THE UNITED NATIONS CONVENTION ON THE RIGHTS OF THE CHILD

www.uncrcletsgetitright.co.uk

The United Nations Convention on the Rights of the Child is an international agreement that protects the human rights of the children under the age of 18. On 16 December 1991, the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland formally agreed to make sure that every child in the UK has all the rights as listed in the convention. The Welsh Government has shown its commitment to the convention by adopting it as the basis for policy making for children in Wales.

Altogether there are 54 articles in the convention. Articles 43-54 are about how adults and governments should work together to make sure all children are entitled to their rights. The information contained here is about articles 1-42 which set out how children should be treated.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Article 1

Everyone under 18 years of age has all the rights in this Convention.

Article 2

The Convention applies to everyone whatever their race, religion, abilities, whatever they think or say and whatever type of family they come from.

Article 3

All organisations concerned with children should work towards what is best for each child.

Article 4

Governments should make these rights available to children.

Article 5

Governments should respect the rights and responsibilities of families to direct and guide their children so that, as they grow, they learn to use their rights properly.

Article 6

All children have the right to life. Governments should ensure that children survive and develop healthily.

Article 7

All children have the right to a legally registered name, the right to a nationality and the right to know and, as far as possible, to be cared for by their parents.

Article 8

Governments should respect children's right to a name, a nationality and family ties.

Article 9

Children should not be separated from their parents unless it is for their own good, for example if a parent is mistreating or neglecting a child. Children whose parents have separated have the right to stay in contact with both parents, unless this might hurt the child.

Article 10

Families who live in different countries should be allowed to move between those countries so that parents and children can stay in contact or get back together as a family.

Article 11

Governments should take steps to stop children being taken out of their own country illegally.

Article 12

Children have the right to say what they think should happen, when adults are making

decisions that affect them, and to have their opinions taken into account.

Article 13

Children have the right to get and to share information as long as the information is not damaging to them or to others.

Article 14

Children have the right to think and believe what they want and to practise their religion, as long as they are not stopping other people from enjoying their rights. Parents should guide their children on these matters.

Article 15

Children have the right to meet together and to join groups and organisations, as long as this does not stop other people from enjoying their rights.

Article 16

Children have a right to privacy. The law should protect them from attacks against their way of life, their good name, their families and their homes.

Article 17

Children have the right to reliable information from the mass media. Television, radio and newspapers should provide information that children can understand, and should not promote materials that could harm children.

Article 18

Both parents share responsibility for bringing up their children, and should always consider what is best for each child. Governments should help parents by providing services to support them, especially if both parents work.

Article 19

Governments should ensure that children are properly cared for, and protect them from violence, abuse and neglect by their parents or anyone else who looks after them.

Article 20

Children who cannot be looked after by their own family must be looked after properly, by people who respect their religion, culture and language.

Article 21

When children are adopted the first concern must be what is best for them. The same rules should apply whether the children are adopted in the country where they were born or taken to live in another country.

Article 22

Children who come into a country as refugees should have the same rights as children born in that country.

Article 23

Children who have any kind of disability should have special care and support so that they can lead full and independent lives.

Article 24

Children have the right to good quality health care and to clean water, nutritious food and a clean environment so that they will stay healthy. Rich countries should help poorer countries achieve this.

Article 25

Children who are looked after by their local authority rather than their parents should have their situation reviewed regularly.

Article 26

The Government should provide extra money for the children of families in need.

Article 27

Children have a right to a standard of living that is good enough to meet their physical and mental needs. The Government should help families who cannot afford to provide this.

Article 28

Children have a right to an education. Discipline in schools should respect children's human dignity. Primary education should be free. Wealthy countries should help poorer countries achieve this.

Article 29

Education should develop each child's personality and talents to the full. It should encourage children to respect their parents, and their own and other cultures.

Article 30

Children have a right to learn and use the language and customs of their families, whether these are shared by the majority of people in the country or not.

Article 31

All children have a right to relax and play, and to join in a wide range of activities.

Article 32

The Government should protect children from work that is dangerous or might harm their health or their education.

Article 33

The Government should provide ways of protecting children from dangerous drugs.

Article 34

The Government should protect children from sexual abuse.

Article 35

The Government should make sure that children are not abducted or sold.

Article 36

Children should be protected from any activities that could harm their development.

Article 37

Children who break the law should not be treated cruelly. They should not be put in prison with adults and should be able to keep in contact with their families.

Article 38

Governments should not allow children under 15 to join the army. Children in war zones should receive special protection.

Article 39

Children who have been neglected or abused should receive special help to restore their self respect.

Article 40

Children who are accused of breaking the law should receive legal help. Prison sentences for children should only be used for the most serious offences.

Article 41

If the laws of a particular country protect children better than the articles of the Convention, then those laws should stay.

Article 42

The Government should make the Convention known to all parents and children.

For further information on the United Nations Convention on the Rights of the Child please visit: The Welsh Government's UNCRC Website: www.uncrcletsgetitright.co.uk/

Cic - The National Information and Advice Service for Young People
www.ciconline.co.uk/news/